"Os mai ychydig o amser yn unig y gallwch ei roi –
**mae pob ychydig yn help.**"

*– Gwirfoddolwr gyda Chymdeithas MND, 2023*

# Cynorthwyydd Digwyddiadau Cymorth

## Proffil y Rôl

Yn aml yn gysylltiedig â Changen neu Grŵp lleol, mae Cynorthwywyr Digwyddiadau Cymorth yn darparu cymorth cyffredinol i hwyluso digwyddiadau lleol rheolaidd sy'n ymgysylltu â phobl sy'n byw gyda Chlefyd Motor Niwron (MND) a'r rhai y mae'r cyflwr yn effeithio arnynt.

Mae Cynorthwywyr Digwyddiadau Cymorth yn sicrhau bod y rhai sy'n mynychu digwyddiadau megis boreau coffi, te prynhawn, cyfarfodydd cymorth, sesiynau galw heibio a mwy, yn cael profiad diogel, cadarnhaol a chyfforddus yn gyson.

### Tasgau a gweithgareddau

- Darparu cymorth cyffredinol i hwyluso, hyrwyddo a mynychu digwyddiadau lleol – gall hyn gynnwys croesawu mynychwyr, cefnogi siaradwyr gwadd, cysylltu'n gyffredinol â staff y lleoliad ac ateb cwestiynau
- Darparu gwybodaeth am y Gymdeithas MND ac, yn ôl yr angen, cyfeirio pobl at ei gwasanaethau
- Datblygu a chynnal perthynas gadarnhaol gyda'r gwirfoddolwyr a'r staff eraill yn lleol
- Cadw at bolisïau a gweithdrefnau Cymdeithas MND, gan gynnwys Diogelu
- Mae'r ymrwymiad amser yn amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys gallu personol ac angen lleol.

Mae'r rôl hon yn cael ei recriwtio drwy ein proses Recriwtio Mwy Diogel, sy'n golygu ei bod yn cynnwys cyfweliad anffurfiol a dau ganolwr.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cwblhau proses gynefino a chymeradwyo gyffredinol.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael cymorth lleol parhaus gan eu Cydlynydd Cymorth Cymunedol (CSC) dynodedig a gwirfoddolwyr lleol, megis y Cydlynwyr Cyfarfodydd Cymorth.

### Gwybodaeth am ein Cynorthwywyr Digwyddiadau Cymorth

Ar draws y Gymdeithas MND, mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein Gwerthoedd.

Rydyn ni'n **Un Tîm Cryf**
- Rydyn ni'n datblygu ac yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol
- Rydyn ni'n gweithio'n effeithiol gyda'n gilydd ac yn gofyn am help a chefnogaeth pan rydyn ni ei angen
- Rydyn ni'n deall pwysigrwydd ein rôl o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu digwyddiadau o safon

Mae gennym **Syniadau Mawr**
- Rydyn ni'n deall ac yn dathlu sut gall digwyddiadau gefnogi pobl y mae MND yn effeithio arnynt
- Rydyn ni'n cymryd rhan mewn dysgu a datblygu priodol i'n helpu yn ein rôl
- Rydyn ni'n defnyddio sgiliau TGCh sylfaenol i ymgymryd â'n rôl - e.e. Zoom/Microsoft Teams, e-bost, Office 365

Rydyn ni'n **Benderfynol**
- Rydyn ni'n barod i ddysgu am MND a'i effaith ar bobl a'u teuluoedd
- Rydyn ni'n sicrhau ein bod yn cymryd camau i sicrhau ein diogelwch ein hunain a diogelwch pobl eraill
- Rydyn ni'n deall yr angen am gyfrinachedd a phwysigrwydd diogelu data

Rydyn ni'n gwneud **Y Gorau o Bob Diwrnod**

- Rydyn ni'n hyrwyddo Gweledigaeth a Phwrpas Cymdeithas MND
- Rydyn ni'n gwneud ein gorau i sicrhau bod pobl sy'n cael eu heffeithio gan MND yn cael yr wybodaeth gywir am sut i gael mynediad at ein digwyddiadau a'n gwasanaethau a'u mynychu mewn ffordd amserol a hygyrch
- Rydyn ni bob amser yn barchus ac yn garedig